Y cenawon rheibus

Parchu Eiddo / Meddwl am Eraill

"Dyma lanast" rhuodd y Mochyn Daear. "Pwy ar wyneb y ddaear sydd wedi gwneud llanast yn y goedwig?" Ar hyd a lled y goedwig roedd canghennau wedi'u torri, a'r dail wedi'u sathru. Roedd y blodau wedi'u torri a'r rhedyn wedi'u tynnu o'r pridd. "Mae'n rhaid i mi gael gwybod pwy sydd wedi gwneud y fath lanast" meddai'r Mochyn Daear yn benderfynol. Aeth am dro i mewn i'r goedwig. Ar ei ffordd gwelodd y draenog pigog.
"Wyt ti'n gwybod pwy sydd wedi gwneud difrod yn y goedwig?" holodd
"Na" oedd ateb y draenog pigog.
Neidiodd ysgyfarnog o'i flaen. "Wyt ti'n gwybod pwy wnaeth y difrod yma?"
"Na" oedd yr ateb unwaith eto.
Pan oedd yn ffarwelio â'r ysgyfarnog daeth criw o genawon llwynog heibio. Dyna sŵn oedd yn y goedwig. Dyma nhw'n dechrau torri canghennau oedd ym môn y coed. Roedd dau wrthi'n tynnu'r rhedyn o'u gwreiddiau. Dyma ddau arall yn torri'r blodau gwyllt a'u taflu at ei gilydd.
"Tybed ai chi sydd wedi gwneud y difrod yma yn y goedwig" holodd y Mochyn Daear yn gas. Stopiodd pob un o'r cenawon a gorwedd o flaen y Mochyn Daear. Mae pawb yn y goedwig ofn y Mochyn Daear yn enwedig pan mae o'n flin. Ac mi roedd o'n flin y diwrnod hwnnw. Meddai un o'r cenawon mewn llais braidd yn grynedig, "Dim ond chwarae oedden ni." "Dim ond cael dipyn bach o hwyl oedden ni" meddai un arall o'r cenawon eraill.
"Gwrandewch yn ofalus ar beth sydd gen i i'w ddweud," meddai'r Mochyn Daear gan ostwng ei lais.
"Ydach chi'n gwybod beth ydych chi, bob un ohonoch chi? Wel, mi ddyweda i wrthych chi. Cenawon gwirion. Dyna ydych chi. Dydy chi ddim wedi meddwl am neb arall sy'n byw yn y goedwig. Am eich bod chi wedi gwneud gymaint o ddifrod

dydi'r anifeiliaid eraill ddim yn gallu mwynhau'r goedwig."
Aeth yn ei flaen i ddwrdio'r cenawon.
"Dydi'r wiwer lwyd ddim yn gallu dringo'r coed am eich bod chi wedi torri'r canghennau. Dydi'r gwenyn ddim yn gallu cael neithdar, rydych chi wedi torri'r blodau. Dydi'r draenog a'r llŵg ddim yn gallu cuddio yn y rhedyn rydych chi wedi'u tynnu o'r pridd."
Bob tro roedd y Mochyn Daear yn siarad roedd y cenawon yn teimlo cywilydd mawr. Doedden nhw ddim yn gallu edrych ym myw llygaid y Mochyn Daear.
"Rydych chi wedi sbwylio popeth i'r creaduriaid eraill. Beth petai rhai o'r anifeiliaid yn anafu eu hunain? Fandaliaid ydych chi, bob un ohonoch. Ond wyddoch chi pwy ydi'r fandaliaid gwaethaf yn y byd?"
"Na" meddai un o'r cenawon yn ddistaw a chrynedig.
"Pobl" meddai'r Mochyn Daear. "nhw ydi'r fandaliaid gwaethaf ar y ddaear yma."

Helpa ni, O Dduw, i ddangos i bobl a phlant sy'n gwneud difrod eu bod yn difetha'r cwbl i bobl eraill. Amen.

✦ Ydych chi'n credu mae pobl ydi'r fandaliaid mwyaf ar y ddaear?
✦ Beth oedd gan y Mochyn Daear yn ei feddwl, tybed?